

Tyst i Adfywio Trawsnewidiol

Tystysgrif Ôl-radd Polisi a Chynllunio Iaith
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Saint
Tachwedd 2024

Colin H. Williams, Cymrawd Emeritws Leverhulme
Prifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Caerdydd

Schemata ar gyfer Ymgorffori leithoedd dan Fygythiad (Williams, 1993)

- **1. *Delfrydiaeth*.** Creu gweledigaeth o iaith 'dan fygythiad' sydd wedi'i hailsefydlu'n llawn; mae hyn yn ymwneud â gwneud iaith a chenedl/tiriogaeth yn gyfystyr.
- **2. *Protest*.** Ysgogi rhannau o'r boblogaeth i frwydro dros ddiwygio/chwyldro cymdeithasol o ran hyrwyddo'r iaith llai ei defnydd.

Schemata ar gyfer Ymgorffori leithoedd dan Fygythiad (Williams, 1993)

- **3. *Dilysrwydd*.** Sicrhau fod y weithred o arfer hawliau iaith mewn peuoedd dethol yn cael ei derbyn yn gyffredinol fel rhan o normalrwydd.
- 4. *Sefydliadoli*.** Sicrhau bod yr iaith yn cael ei chynrychioli o fewn asiantaethau allweddol y wladwriaeth e.e. y gyfraith, addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus.

Schemata ar gyfer Ymgorffori leithoedd dan Fygythiad (Williams, 1993)

- **5. Cyfochredd.** Ehangu defnydd yr iaith i'r ystod orau o sefyllfaoedd cymdeithasol h.y. y sector preifat, adloniant, chwaraeon a'r cyfryngau.
- Un peth yw creu y cyfleoedd, mater arall yw ysgogi pobl i'w ddefnyddio.

Hyrwyddo, diogelu a rheoleiddio

Hyrwyddo: cymdeithas sifil yn ymgyrchu; datblygu cymunedol; ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth iaith; protestiadau yn erbyn anghyfiawnder hanesyddol a pharhaus; creu cyfres o naratifau a schematas sy'n cyfiawnhau hyrwyddo iaith mewn amryw gyd-destunau; apelio i'r mwyafrif bod yr iaith darged er lles pawb, ac nad yw'n destun pryder i'r lleiafrif yn unig.

Hyrwyddo, diogelu a rheoleiddio

Diogelu: chwilio am hawliau iaith unigol a chyffredin yn rhan o agenda Hawliau Dynol; canolbwyntio ar ddeddfwrfeydd rhanbarthol, gwladwriaethol a rhyngwladol.

Trosglwyddo arferion da o ran statudau a deddfau o wledydd eraill, e.e.Gwlad y Basg, Catalwnia, Canada.

.

Hyrwyddo, amddiffyn a rheoleiddio

- **Rheoleiddio:** gwarantu hawliau cwsmeriaid a gweithwyr mewn statud, os nad bob amser mewn ymarfer; sefydliadolli arferion dwyieithog/amlieithog yn y sector cyhoeddus a phreifat; ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau mawr, megis banciau, cwmnïau yswiriant, archfarchnadoedd ac ati ddarparu cynnig rhagweithiol; gwneud yn ofynnol cael arwyddion, hyfforddiant staff, strategaethau cyfathrebu a chynlluniau/safonau iaith.
- Beth yw eich barn am ddylanwad y Comisiynydd Iaith?

Tair penbleth
- angen gweithredu

Sut i reoli llwyddiant
a disgwyliadau?

Sut i lywio llwybr
i'r brif ffrwd?

Sut i ystyried deilliannau
nid allbynnau yn unig?



Ffyrdd newydd o edrych ar hen broblemau

- **Cwestiwn allweddol:** Sut mae creu amodau sy'n caniatáu twf iaith frodorol a bod modd ei chynnal mewn cyd-destun sy'n newid yn barhaus.
- Mae **dulliau sy'n gweithio**, rhai sydd wedi eu treialu a'u profi yn hollbwysig, fel y mae datblygu polisi mewn perthynas â throsglwyddo iaith o fewn y teulu (rhwng cenedlaethau), addysg ffurfiol, datblygu cymunedol a hyfywedd economaidd.
- **Yr her fawr** yw sut i drosi sgiliau iaith/bod yn gymwys mewn iaith i fod yn ddefnydd arferol, fel bod yr iaith yn cael ei hatgyfnerthu fel cyfrwng cyfathrebu go iawn a pherthnasau ystyrlon.
- Mae **cynyddu niferoedd**, boed yn filiwn o siaradwyr Cymraeg, neu unrhyw ddyfalu ar gyfer Gaeleg a Gwyddeleg, yn glodwiw. Ond, os nad yw hynny'n cydreddeg ag ymyrraeth gymdeithasol ac economaidd, prin iawn fydd y llwyddiant.

Llywio llwybr
i'r brif ffrwd

Trawsnewid mesurau penodol er lles y cyhoedd yn gyffredinol.

Deddfwriaeth y DU:

Deddf yr Iaith Gymraeg, 1967

Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993

Deddf Diwygio Addysg, 1988

Deddf Addysg 2002

Deddf Llywodraeth Cymru, 2006

Deddf Cymru 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Mesur y Gymraeg (Cymru), 2011

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Y Senedd: Mesur Addysg Gymraeg.

Cymraeg 2050: Pam y newid a'r ymrwymiad?



- Mae'r targed o **filiwn o siaradwyr** wedi llwyddo i greu **naratif clir a chydlynus** yn lle syniadau, mentrau a chyfeiriadau a oedd, cyn hynny, yn ddarniog ac yn anghymesur. Hefyd mae wedi creu **disgwrs** sydd wedi ei atgyfnerthu gan awdurdod llawn Llywodraeth Cymru.
- Yn sgil hyn mae **canlyniadau ac effaith** ar (a) adrannau [llywodraeth] nad oedden nhw wedi ymwneud neu ymrwymo i'r Gymraeg cyn hyn (b) gweision sifil i drin y Gymraeg fel 'nwydd cyhoeddus' wedi ei 'normaleiddio' ym mhob agwedd ar swyddogaethau a chyfrifoldebau llywodraeth.
- **Mesur y Gymraeg** (Cymru) 2011 a chyflwyno set gynhwysfawr o Safonau Iaith.
- Ymwybyddiaeth gynyddol o amlygrwydd y Gymraeg yn y meddylfryd swyddogol. Sut mae'r strategaeth yn cael ei gwerthuso?

Rhwystredigaeth a dryswch

- **CANRAN A NIFER YN GOSTWNG** Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1.2% ers Cyfrifiad blaenorol 2011, a hynny o 19% i 17.8%. Mae hyn gyfwerth â cholli bron 24,000 o siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 (562,000) a 2021 (538,300).
- **Y CWMP MWYAF YN Y BOBLOGAETH IFANC** Dangosodd Cyfrifiad 2021 mai'r grwp oed 5-15 a welodd y gostyngiad mwyaf mewn nifer o siaradwyr. Gwelwyd lleihad o 6% yn nifer y plant oed Ysgol sy'n medru'r Gymraeg, o 40.3% yn 2011 i 34.3% yn 2021. Bu gostyngiad yn y siaradwyr Cymraeg tair i bedair oed o 23.3% yn 2011 i 18.2% yn 2021.
- **A OEDD Y PANDEMIG YN FFACTOR?** Y prif eglurhad oedd o ganlyniad i Covid19. Roedd ysgolion ar gau am tua 18 mis. Teimlad nifer o rieni oedd nad oedd eu plant wedi gweld cynnydd digonol yn eu sgiliau Cymraeg er mwyn eu cofnodi'n siaradwyr Cymraeg. Ymchwiliad i ddigwydd gan Lywodraeth Cymru i'r anghysondeb rhwng data'r Cyfrifiad a gynhelir bob degawd a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- **DATA CYFRIFIAD cf DATA AROLWG BLYNYDDOL** Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, amcangyfrifodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod 29.7% o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i tua 906,800 o bobl. Mae hyn 0.3 pwynt canran yn is na'r flwyddyn flaenorol (y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022), sy'n cyfateb i oddeutu 400 yn llai o bobl. 27 Gorff 2023


Newidiadau'r Gymraeg 2011-2021 (Ffynhonnell Llywodraeth Cymru)

Change (percentage point)



Deilliannau nid allbynnau yn unig

- Mae Llywodraethau'n gosod targedau, cyllidebau ac yn diffinio allbynnau – a dyma sy'n mesur eu llwyddiant.
- Mae polisi Llywodraeth y DU wedi adnabod meysydd newid ymddygiad, damcaniaeth 'Nudge' ac argyhoeddiad fel elfennau hollbwysig wrth ddatblygu polisi. Anelir at egwyddor 'deilliannau' gan herio'r 'allbynnau'.
- A yw polisi a strategaeth iaith yn wahanol iawn o ran ei elfennau cymdeithasol a seicolegol o'i gymharu â pholisïau o fath gwahanol?
- Mae ymgyrchoedd ymyrraeth llwyddiannus wedi addasu ymddygiad mewn peuoedd megis gofal iechyd, peryglon yfed a gyrru, lleihau siwgr mewn bwydydd a diodydd medal, a gwaredu pecynnu plastig er mwyn lliniaru'r effeithiau gwaethaf neu i atal llygredd yn y môr.

The background of the slide features a series of thin, curved lines in shades of grey and blue, creating a sense of motion and depth. These lines are more prominent on the left side and fade towards the right.

Chwe Maes Allweddol: 2023 Ymlaen

- Polisi a Chynllunio Iaith
- Normaleiddio
- Addysg
- Trosglwyddo iaith yn y teulu a'r gweithle
- Seilwaith Cefnogol
- Gwell deddfwriaeth a hawliau iaith cryfach

Addysg yw'r allwedd ar gyfer twf dwyieithrwydd

- A fydd y system addysg yn buddsoddi yn y nifer sydd eu hangen o athrawon cyfrwng Cymraeg newydd? Anhebyg er gwaethaf cynigion y Mesur Addysg.
- Angen ehangu darpariaeth Meithrin cyfrwng Cymraeg (MM).
- Angen agor ysgolion dwyieithog neu Gymraeg newydd.
- Angen ymgorffori addysgu cyfrwng Cymraeg mwy effeithiol mewn ysgolion Saesneg hyd yn hyn; neu ysgolion dwy iaith, Ysgol Groeswen, Caerdydd=arloesol.
- Cefnogi gwaith sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch wrth ddatblygu sgiliau staff a dylunio'r cwricwlwm. A fydd hyn yn creu'r gweithlu dwyieithog effeithiol sy'n cael ei ganmol yn y Strategaeth?

Y benbleth: pam, wedi'r holl ddiwygio polisi, fod arnom angen cynlluniau o'r newydd?

Mae defnydd yn rhagdybio set o sgiliau a meithrin gallu, fel y gellir defnyddio 'gofodau' a chyfleoedd er mwyn defnyddio'r iaith leiafrifol.

Yn gynyddol yn y gymdeithas reoledig hon, mae hefyd yn gofyn am argyhoeddiad gwleidyddol a dilysrwydd gwleidyddol.

Ond mae hefyd angen bod yn glyfar o ran sut y mae meithrin syniadau newydd o faes saernïo seicolegol-gymdeithasol megis

Addasu Ymddygiad, Mindspace, Damcaniaeth Nudge ac Argyhoeddiad.


Y Fro Gymraeg

- Adroddiad ac Argymhellion 'Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg.' Dr S. Brooks-ehangu'r gorwelion.
- Gwaith ymchwil, cynigion Yr Athro Elin Jones, et al.
- Gweithgaredd o ochr y gymuned e.e. Cymunedoli.
- Polisiâu cynghorau ar dai Haf.
- Effaith TAN 20.
- Y berthynas rhwng Cynllunio Gwlad a Thref a Chynllunio leithyddol.
- Yr economi a datblygiad rhanbarthol.


I gloi

- Mae angen i weision sifil ystyried, pwyso a mesur, syniadau a phersonoliaethau pob Gweinidog dros y Gymraeg a ddaw i'r swydd.
- Mae angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddeall gofynion newid ymddygiad a sut i ragweld yr ymateb fydd i bolisïau.
- Nid yw polisïau swyddogol y llywodraeth yn lleddfu nac yn mynd i'r afael gyda'r strwythurau dwfn ac anweledig sydd y tu ôl i agweddau lled-elyniaethus tuag at y Gymraeg, neu'r rhwystredigaeth am fodolaeth yr iaith.
- Mae nifer o asiantaethau yn rhan o ddiwylliant sy'n ddibynnol ar grantiau, sy'n cael ei weinyddu, ei ariannu a'i reoleiddio gan lywodraeth, ac yn sgil hynny, nid ydynt yn gwbl annibynnol ('compromised').

Landscape of Innovation Approaches



With NESTA's permission



With NESTA's permission



Understanding reality

